## TAG UG/Uwch

1373/51

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF CY3

## DEFNYDDIO'R IAITH, A BARDDONIAETH

***(Papur Ysgrifenedig)***

A.M. DYDD IAU, 12 Ionawr 2012

2 awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

**Ni chaniateir defnyddio copïau o farddoniaeth na geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Awgrymir eich bod yn treulio ¾ awr ar Adran A ac 1 ¼ awr ar Adran B.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

SBM*(W12-1373-51)

## Adran A

## Defnyddio Iaith

**1.** Atebwch **bob** rhan o'r cwestiwn hwn. Cewch eich gwobrwyo am greu brawddegau sy'n ieithyddol gywir.

*(a)* Defnyddiwch y canlynol mewn brawddegau gwreiddiol, **un** ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd: [10]

awn i
gwisgaswn
ystyrir
amdanynt
y gwnâi

*(b)* Mae **dau** wall ymhob un o'r brawddegau isod. **Lluniwch dair colofn**: yn y gyntaf nodwch y camgymeriad, yn yr ail cywirwch ef, ac yn y drydedd nodwch eich rheswm dros gywiro. [20]

(i) Ar hyn o bryd rhedai y plant yn yr ysgol er mwyn cyfrannu i gronfa'r henoed.

(ii) Enillodd Gymro ras y tri chopa eleni a chaiff gymeradwyaeth fyddarol gan y dorf.

(iii) Mae'r olygfa olaf rhwng ef a'i fam yn cyffwrdd ni.

(iv) Hon yw'r cylchgrawn a welais ei glawr yn ffenestr y siop.

(v) Clywaf fod ef ddim yn mynd i weld y gêm yfory os y bydd hi'n bwrw.

*(c)* Mae hanes Mari Jones yn adnabyddus drwy'r byd oherwydd iddi gerdded yn droednoeth o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala i brynu Beibl. Sonnir am ei thaith mewn pamffled arbennig. Dewch gyda ni ar ei thaith gan ddechrau yn Llanfihangel-y-Pennant.

Mae **deg gwall** yn y darn isod. **Ailysgrifennwch** y darn gan **danlinellu** pob gwall a **gywirwyd**.

[10]

Dyma'r lle a welwch gofeb Mari Jones ac eglwys y pentref lle claddasid ei rhieni. Byddech yn teithio drwy wlad fendigedig mewn cysgod Cader Idris gan ddilyn ôl eu traed. Mae'r daith yn croesi camfeydd cul, mynydd-dir carregog a nentydd byrlymus cyn cyrraedd ehangder Penllyn. Gallwch gerdded wrth eich pwysi ond os oes gennych amser gallwch roi eich traed i fyny yn nhref Dolgellau. Os ewch ar y daith cewch fod yn ran o bererindod modern...

## Adran B

## Barddoniaeth

**2.** Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r canlynol.

*Wrth ateb, dylech gofio:*

- *defnyddio nifer digonol o gerddi (o leiaf dair cerdd) wrth ymateb i ofynion y cwestiwn*
- *dadansoddi arddull*
- *cymharu gweithiau'r beirdd lle bo'n briodol*
- *defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.*

**Naill ai**

*(a)* Trafodwch yr **elfennau** sy'n debyg ac yn wahanol o ran **cynnwys ac arddull** yn y cerddi a astudiwyd gennych o waith Twm Morys a Gerallt Lloyd Owen. [80]

**Neu**

*(b)* **Bro eu mebyd** yw un o bynciau canolog Waldo Williams a T. H. Parry-Williams tra bo Iwan Llwyd yn cyfeirio at **lefydd mor amrywiol â Llyn Clywedog** a'r **Gwlff.** Ystyriwch **dair** cerdd, **un o eiddo pob bardd** a thrafodwch **arwyddocâd y llefydd hyn** yng ngwaith y beirdd gan gymharu **cynnwys ac arddull y cerddi.** [80]

**TAG UG/Uwch**

1373/51-A

# CYMRAEG - IAITH GYNTAF CY3
# WELSH - FIRST LANGUAGE CY3
## DEFNYDDIO'R IAITH, A BARDDONIAETH
## *USE OF LANGUAGE, AND POETRY*

(Arholiad Ysgrifenedig)

*(Written Examination)*

A.M. DYDD IAU, 12 Ionawr 2012

*A.M. THURSDAY, 12 January 2012*

2 awr

*2 hours*

| **Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau**<br>***For the attention of the Examinations Officer*** |
|---|

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogysal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

**Ni chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Awgrymir eich bod yn treulio ¾ awr ar Adran A ac 1¼ awr ar Adran B.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*In addition to this paper, you will need a 12 page answer book.*

***Copies of the poetry studied and dictionaries are not permitted.***

***INSTRUCTIONS TO CANDIDATES***

*Use black ink or black ball-point pen.*

*Answer the* **two** *questions.*

*Write your answers in the answer booklet that is provided.*

*Where it is necessary to express your opinions you should give reasons for them and refer to the opinions of others when appropriate.*

*You are reminded that assessment will take into account the quality of written communication in your answer.*

*You are advised to spend ¾ hour on Section A and 1¼ hours on Section B.*

*You should spend 15 minutes to plan your essay in Section B.*

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks is specified in brackets at the end of each question or part-question.*

SM*(W12-1373-51-A)